

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru greu cynllun sy'n nodi sut maen nhw'n cynnig, drwy arfer eu swyddogaethau, cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru.
- 1.2 At ddibenion y Cynllun Llywodraeth Leol (y Cynllun), mae'r sefydliadau canlynol yn ffurfio rhan o'r diffiniad o lywodraeth leol:
 - Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
 - Cynghorau Cymuned
 - Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
 - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
 - Awdurdodau Tân ac Achub
 - Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru
- 1.3 Mae Adran 73 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ynghylch sut y cafodd y cynigion a nodir yn y Cynllun eu gweithredu ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2017–18.

2. Y Cynllun

- 2.1 Diwygiwyd y Cynllun Llywodraeth Leol yn 2017 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017.
- 2.2 Mae'r Cynllun newydd wedi'i lunio yng nghyd-destun Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a chafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Cyngor Partneriaeth ei hun. Mae'n adlewyrchu agenda a rennir a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt.
- 2.3 Mae'r Cynllun newydd yn diffinio perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, ac yn adlewyrchu'r berthynas arbennig sydd gan Lywodraeth Cymru â chyrff eraill a gynrychiolir yn y Cyngor Partneriaeth.
- 2.4 Mae'r Cynllun yn:
 - crynhoi'r egwyddorion a fydd yn ategu'r ffordd rydym yn cydweithio yn y dyfodol
 - ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Ndeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - adlewyrchu'r perthnasau arbennig rhwng Llywodraeth Cymru a'r amryw o sefydliadau y mae'r Cynllun yn berthnasol iddynt – yn ogystal â dwyn y ffyrddau tebyg ynghyd o ran y ffordd y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd
 - adlewyrchu perthnasau cytbwys a berchir gan y ddwy ochr
 - disgrifio rôl gywir Llywodraeth Cymru wrth nodi'r fframwaith trosfwaol o ran polisi, deddfwriaeth a chyllid

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

- rhoi pwyslais ar bwysigrwydd gwneud penderfyniadau lleol o ran sut y dylid gwneud pethau
- hyrwyddo dull a fydd yn sicrhau bod gan bob parti ran allweddol i'w chwarae

2.5 Wrth adrodd ar y cynllun newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn ar y cyd gydag aelodau ac arsylwyr Cyngor Partneriaeth Cymru.

3. Y Cyngor Partneriaeth

3.1 Cyngor Partneriaeth Cymru (y Cyngor Partneriaeth), ynghyd â'i weithgorau, yw'r prif fforwm statudol ar gyfer dialog a chydweithio rhwng Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol.

3.2 Cynhaliwyd tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac ymhlith y materion allweddol a drafodwyd yr oedd: diweddariadau amrywiol o ran diwygio llywodraeth leol; diweddariad ar y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd; eitem am *Ffyniant i Bawb*; a phapur gan y trydydd sector a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau o'r newidiadau o ran gweithio mewn partneriaeth o'u safbwynt nhw.

4. Gweithio'n Rhanbarthol

4.1 Yn gynnar yn ystod 2017–18, cynhaliwyd sawl trafodaeth gyda llywodraeth leol ar lefel swyddogol a gwleidyddol i ystyried y posibilïadau ar gyfer sut y gellid datblygu'r cynigion ar gyfer gweithio rhanbarthol yn systematig a gorfodol fel y nodir yn y Papur Gwyrdd *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*.

4.2 Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ddwywaith, a chyfarfu ei is-grŵp cyllid unwaith, i archwilio'r materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd ac arian sy'n rhan o'r gwaith o symud tuag at weithio'n rhanbarthol ar y sail hon. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, daeth i'r amlwg fod yr heriau hyn yn sylweddol, a mynegodd llywodraeth leol bryder ynghylch rai agweddau ar ei gymhwysu'n ymarferol.

4.3 Yn hwyrach yn ystod 2017–18, daeth y gwaith hwn i ben pan gyhoeddwyd y Papur Gwyrdd *Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl*.

5. Papur Gwyrdd

5.1 Ar 20 Mawrth 2018, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, *Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl*, gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y Papur Gwyrdd yn

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

ceisio cynnwys cymunedau ar draws Cymru mewn trafodaeth ynghylch ffurf llywodraeth leol yn y dyfodol.

- 5.2 Roedd y Papur Gwyrdd yn nodi tri opsiwn i'w trafod ar gyfer diwygio llywodraeth leol a chreu awdurdodau mwy a chryfach drwy uno rhai ohonynt. Dyma'r tri opsiwn: uno gwirfoddol; uno cam wrth gam, gydag uno cynhwysfawr yn yr etholiadau llywodraeth leol ar ôl y nesaf; ac uno cynhwysfawr ar y cyfle cynharaf. Ym mhob achos, byddai'r uno hwn o fewn 'patrwm penodedig'. Roedd y Papur Gwyrdd yn rhoi manylion am bob opsiwn, ac yn rhoi'r patrwm penodedig (neu fap) ar gyfer yr awdurdodau lleol newydd.
- 5.3 Roedd y Papur Gwyrdd yn tynnu sylw at gynigion eraill, gan gynnwys cydnabod cyfraniad aelodau etholedig yn well, y cwmpas posibl ar gyfer rhannu gwasanaethau, a'r pwerau a'r hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd y Papur Gwyrdd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd parhau â gwaith rhanbarthol eglur a phenderfynol gan awdurdodau.

6. Pwerau a Hyblygrwydd Newydd

- 6.1 Yng nghynhadledd yr hydref Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Tachwedd 2017, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ei ymrwymiad i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru, gydag awdurdodau lleol sydd â'r rhyddid a'r pwerau i drawsnewid y manau y maent yn gyfrifol amdanynt a, gyda phartneriaid, gwneud gwahaniaeth i'w rhanbarthau a Chymru yn gyffredinol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda llywodraeth leol i roi'r newid hwn ar waith gyda'i gilydd, ac archwilio'r meysydd y gellid cryfhau awdurdodau lleol ar unwaith drwy roi mwy o bwerau, hyblygrwydd a rhyddid iddynt.
- 6.2 Ymgynghorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus â llywodraeth leol i edrych ar y ffordd ymlaen, gan wahodd arweinwyr awdurdodau lleol i awgrymu meysydd y byddai pwerau neu hyblygrwydd pellach yn eu cynorthwyo yn eu gwaith o ddarparu gwasanaethau i bobl a chymunedau. Bu i Ysgrifennydd y Cabinet sefydlu Grŵp Diwygio Deddfwriaethol ar lefel wleidyddol gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i drafod pwerau a hyblygrwydd a'r cwmpas ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd ar ddod. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith yn gynnar yn 2018.
- 6.3 Roedd y Papur Gwyrdd, *Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl*, hefyd yn ceisio safbwyntiau pellach ar y pwerau, hyblygrwydd a rhyddid y dylai llywodraeth leol eu cael.
- 6.4 Mae arweinwyr llywodraeth leol wedi cyflwyno cynigion ar gyfer pwerau, hyblygrwydd a rhyddid ar draws amryw o feysydd pwnc, gan gynnwys cyllid, trafniadaeth, addysg a sgiliau, iechyd, a'r amgylchedd. Cynhelir trafodaethau manwl rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i edrych ar y cynigion hyn ymhellach yn ystod 2018-19.

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

7. Diwygio Etholiadol

- 7.1 Rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru 2017 bwerau deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i gynnal a gweinyddu ei etholiadau llywodraeth leol ei hun.
- 7.2 Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys ehangu'r etholfraint i bobl 16 ac 17 oed, dinasyddion o dramor a rhai carcharorion, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr a bod yn rhan o'r system bleidleisio a'r broses bleidleisio. Derbyniodd yr ymgynghoriad bron i 1,000 o ymatebion.
- 7.3 Yn ei ddatganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 30 Ionawr 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ei fod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i alluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor i bleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.
- 7.4 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu deddfu i archwilio pleidleisio a chyfrif yn electronig, a phleidleisio ar ddiwrnodau gwahanol, trwy gyfres o gynlluniau peilot.
- 7.5 Bydd y cynigion diwygio etholiadol hyn yn cael eu datblygu fel rhan o Bil Llywodraeth Leol (Cymru), y mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi a fydd yn ffurfio rhan o raglen ddeddfwriaethol y drydedd flwyddyn (2018–19).

8. Cyllid a Setliad

- 8.1 Cafwyd trafodaethau am adnoddau ac ynghylch dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol drwy gydol y flwyddyn rhwng arweinwyr llywodraeth leol a chynrychiolwyr eraill a Gweinidogion Llywodraeth Cymru perthnasol. Darparodd Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth y mecanwaith parhaus ar gyfer ymgysylltu â materion sy'n ymwneud â chyllid yn fwy ffurfiol, gan gynnwys dosbarthu cyllid rhwng awdurdodau lleol gan ddefnyddio fformiwla'r setliad, a goblygiadau dosbarthiadol trosglwyddo grantiau penodol i'r setliad heb ei neilltuo. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cafodd yr Is-grŵp Cyllid bedwar cyfarfod, a thrafododd y grŵp y pwysau ar gyllidebau llywodraeth leol a diwygio llywodraeth leol a diwygio ariannol, a chytunwyd ar y newidiadau i setliad llywodraeth leol 2018-19, ynghyd â rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu ar gyfer 2018.
- 8.2 Yn unol â chyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd, darparodd Llywodraeth Cymru arwyddion ar gyfer cyllid refeniw cyffredinol llywodraeth leol ar lefel Cymru hyd at 2019-20 ac ar gyfer cyllid cyfalaf hyd at 2020-21. Er bod llywodraeth leol wedi pwysleisio, drwy'r Is-grŵp Cyllid ac yn fwy cyffredinol, ei bod yn awyddus iawn cael arwydd dros y tymor hirach o gyllid

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r cyllid craidd heb ei neilltuo (grant cymorth refeniw ac ardrethi annomestig a ddosbarthwyd), gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau gwario sy'n unol â'i setliad gan Lywodraeth y DU yn unig. Mae hyn, ynghyd â'r diffyg sicrwydd mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru ei hun gan Lywodraeth y DU am weddill y cyfnod adolygu gwariant presennol, yn golygu nad oedd yn bosibl darparu arwyddion dibynadwy dros y tymor hirach.

- 8.3 Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwasanaethau hanfodol a ddarparwyd gan a thrwy lywodraeth leol yn ei phenderfyniadau cyllidebol ym mis Hydref a Rhagfyr 2017. Mae gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn hanfodol er budd hirdymor pobl yng Nghymru, a chytunodd Llywodraeth Cymru gyda llywodraeth leol y dylai'r meysydd hyn dderbyn adnoddau ychwanegol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Llywodraeth leol achos manwl yn amlinellu'r pwysau gwerth £212 miliwn o ran tâl, galw a chwyddiant y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn 2018-19, sef 4% o wariant net, a fydd yn codi i £762 miliwn erbyn 2021-22. Cynyddodd y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol 0.2% yn nhermau arian parod ar gyfer 2018-19. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llywodraeth leol yn dal i wynebu cryn bwysau. Roedd y gyllideb derfynol yn cynnwys £28.3 miliwn ychwanegol dros y setliad dros dro o ganlyniad i ddyraniadau cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, y cynnydd o ran y terfyn cyfalaf ar gyfer codi tâl am ofal preswyl, ac i gefnogi'r ddarpariaeth o ryddhad yn ôl disgrisiwn gan awdurdodau lleol, wedi'i thargedu at fusnesau lleol a threthdalwyr eraill. Darparwyd £0.8 miliwn pellach i sicrhau nad oedd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.5% mewn arian parod yn ei gyllid craidd heb ei neilltuo o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 8.4 Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ystyried, fel mater o egwyddor a llywodraethu da, y dylai unrhyw gyfathrebu rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â chyllid, fel mewn materion eraill, fod yn eglur ac yn dryloyw. Mae hyn yn cynnwys eglurder ar y berthynas rhwng cyhoeddiadau portffolio a chymau gweithredu unigol gan weinidogion a'r cyllid craidd cyffredinol. Caiff yr egwyddorion a'r ymrwymïadau hyn eu hamlinellu yn y Cynllun Partneriaeth.
- 8.5 Mynegodd llywodraeth leol bryder yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2017–18 ynghylch eglurder, tryloywder a phrydlondeb nifer o benderfyniadau a chyhoeddiadau cyllido. Yn gyffredinol, roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r ffordd yr oedd modd camddechongli datganiadau ynghylch 'cyllid ychwanegol', a chydweithiodd llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru i ddatrys rhai o'r materion hyn mewn da bryd cyn y setliad terfynol.
- 8.6 Roedd pryderon mwy penodol ynglŷn â'r diffyg eglurder o ran grantiau unigol a throsglwyddiadau i'r Grant Cynnal Refeniw. Dyma'r achos ar gyfer elfennau o'r Grant Gwella Addysg - er enghraifft, y cyllid ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n sipswn, Roma a theithwyr. Darperir cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol drwy system hynod gymhleth sy'n cynnwys llawer o ffynonellau cyllido gwahanol mewn proses gyllidebol ddynamig sy'n datblygu o fewn Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, gall fod yn heriol cyhoeddi

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

setiau unigol o ddata awdurdodol syml, yn enwedig ar gyfer cymariaethau hanesyddol. Roedd setliad 2018–19 yn arbennig o gymhleth, sydd wedi gwneud pob un ohonom yn ymwybodol o'r angen i rannu gwybodaeth yn well ac yn fwy cynnar rhyngom ni a'r angen i gyflwyno data mewn modd y cytunwyd arnynt.

9. Diwygio Ariannol

- 9.1 Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys nifer o ymrwymadau ynghylch diwygio'r fframwaith cyllido ar gyfer llywodraeth leol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai trethi lleol fod yn fwy teg ac yn fwy graddol wrth gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol a chefnogi busnesau. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhaglen waith i ddarparu pecyn o ddiwygiadau tymor byr, canolig a hirdymor i gydnabod natur gymhleth y systemau presennol a'r amserlenni sydd eu hangen i gyflawni newid.
- 9.2 Ar 10 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion am y rhaglenni gwaith, a bydd yn cyflwyno diweddariad o ran cynnydd ym mis Hydref 2018. Cyflawnwyd cryn dipyn o waith diwygio yn y tymor byr ers 2016. Mae hyn yn cynnwys:
- ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol er mwyn sicrhau bod y nifer fwyaf posibl yn manteisio ar y cymorth hanfodol i gartrefi er mwyn cyflawni eu rhwymedigaeth treth gyngor
 - gweithio gyda llywodraeth leol er mwyn annog sefyllfa lle mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi'u heithrio rhag talu treth gyngor tan eu bod yn 25 oed
 - cynnal ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau am ddileu'r gosb o garchar am orfodi dyled treth gyngor
 - cynnal adolygiad o ymarferion ailbrisio ardrethi annomestig a darparu ystod o gymorth trosiannol
 - Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar waith ar gyfer 2017–18, a rhoddwyd sylfaen barhaol gyda thargedu gwell ar gyfer 2018, gan gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru megis y cynnig gofal plant 30 awr am ddim
 - ymgynghoriad am fesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi annomestig
- 9.3 Ar gyfer ystyriaethau yn y tymor canolig, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar wneud gwelliannau yn y dyfodol i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach y tu hwnt i 2018, a bydd yn cyhoeddi newidiadau i ddeddfwriaethau a pholisïau er mwyn mynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi. Mae cynnal gwerthusiad o lwyddiant yr ymgyrch ymwybyddiaeth am dreth gyngor a datblygu gwelliannau ar gyfer y gweithdrefnau gorfodi lleol hefyd wedi'u cynllunio hefyd, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd gwell o ymgymryd ag ymarferion ailwerthuso eiddo.
- 9.4 Dros y tymor hirach, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu archwilio dulliau gwahanol o godi refeniw lleol, gan edrych ar yr enghreifftiau gorau yn

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

rhyngwladol. Mae'r syniadau'n cynnwys ystyried p'un a fyddai trethi ar ffurf treth gwerth tir neu dreth incwm lleol yn dod â manteision i drethdalwyr ac economi Cymru. Mae gweithgor allanol yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru o ran datblygu'r gwaith hwn.

- 9.5 Mae llywodraeth leol yn falch o weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Cynghorol Trethi. Mae trethi datganoledig wedi creu llawer o ddiddordeb yn y sector llywodraeth leol fel ffordd o gynhyrchu ffynonellau cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol, a dylanwadu ar ymddygiad talwyr trethi.

10. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- 10.1 Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gwneud cynnydd cadarnhaol i fodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gydag amryw o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae pob bwrdd bellach wedi cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol, sy'n nodi ei flaenoriaethau a rennir a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd.
- 10.2 Mae'r pwyslais bellach yn cael ei roi ar gyflawni – gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio dangos yr effaith y gall y math hwn o gamau gweithredu ar y cyd ei chael drwy ganlyniadau ar unwaith yn ogystal â newid yn y tymor hirach.

11. Plismona a Phartneriaeth

- 11.1 Er nad yw'r cyfrifoldeb dros bolisi a chyflawni plismona wedi ei ddatganoli eto, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabiliaid yng Nghymru. Mae Gweinidogion yn cyfarfod â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau a Prif Gwnstabiliaid yn rheolaidd er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar draws materion sy'n ymwneud â phlismona a materion strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu o ran mynd i'r afael â throsedd, gan ganolbwyntio ar wrthderfysgaeth, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, mynd i'r afael â materion yn ymwneud â throseddau ymhlith pobl ifanc, a chymryd camau gweithredu i leihau cyfraddau troseddau ac aildroseddau.
- 11.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dechrau datblygu dulliau i fynd i'r afael â thrais difrifol a throseddau cyfundrefnol difrifol.
- 11.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am wasanaethau i gydweithio drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae wedi cynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli yn wirfoddol, a gymerwyd gyda brwdfrydedd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabiliaid yn benodol. Mae cynrychiolwyr yr Heddlu hefyd wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "adnewyddu" Diogelwch Cymunedol wrth gyfrannu at

Adroddiad Blynyddol 2017–2018 ar gyfer y Cynllun Llywodraeth Leol

waith PSB tra bod dealltwriaeth yr heddlu o fregusrwydd wedi'i wella gan y bartneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a arwyddwyd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Prif Gwnstablaid a gan gyrrff Cyfiawnder Troseddol eraill sy'n gweithio yng Nghymru.

- 11.4 Mae'r enghraifft hon o gydweithredu yn yr amgylchedd datganoledig wedi arwain at grant o £ 6.8 miliwn gan Gronfa Trawsnewid yr Heddlu i bedwar Rhanbarth Heddlu Cymru i ddatblygu Rhaglen ACE Cymru gyfan, ac mae'n ategu gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar ar bob lefel, gan gynnwys cyfraniad yr heddlu i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched a throseddwy'r ifanc.

12. Cynghorau Cymuned a Thref

- 12.1 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref fwrw ymlaen â nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ystod 2017-18.
- 12.2 Sefydlwyd y Panel Adolygu Annibynnol ym mis Gorffennaf 2017 gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, i arwain adolygiad annibynnol ar rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol. Sefydlwyd y Panel i wneud y canlynol:
- Ymchwilio i rôl bosibl i lywodraeth leol islaw Awdurdodau Lleol, gan weithio ar sail arferion da;
 - Diffinio'r model(au) / strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon;
 - Ystyried sut y dylid defnyddio'r modelau a'r strwythurau hyn ar draws Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn angenrheidiol nac yn briodol.
- 12.3 Cafodd yr adolygiad gefnogaeth gref gan yr Ysgrifennydd Cabinet presennol dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadarnhaodd bod lle i fod yn radical wrth geisio dod o hyd i'r ateb cywir a gorau i Gymru. Bydd canfyddiadau ac argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol yn cael eu cyhoeddi yn 2018-9.
- 12.4 Ar 20 Gorffennaf yn Adeilad y Pierhead, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, symposiwm ar y thema "Cryfhau'r cysylltiadau allweddol rhwng cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol" i archwilio'r berthynas rhwng cynghorau sir a chynghorau cymuned a thref. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng clerod a swyddogion i drafod profiadau ymarferol, i nodi materion a rhwystrau oedd yn gyffredin iddynt ac i gytuno ar gamau gweithredu i'w rhannu â'u sefydliadau a'u rhwydweithiau ehangach.